
# Cynhadledd Bregusrwydd Dŵr Cymru Welsh Water

## 17 Gorffennaf 2025

## Crynodeb o'r Diwrnod



## Cyflwyniad

### Rebecca Price - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cwsmeriaid

Nod heddiw yw darparu profiad llawn gwybodaeth dros yr ychydig oriau nesaf. Mae'r rhaglen yn hyrwyddo meithrin cysylltiadau newydd a chryfhau perthnasau cyfredol. Ystyrir bod cydweithio'n hanfodol i gyflawni amcanion a chynorthwyo unigolion sydd mewn angen o fewn ein cymunedau, gan gydnabod pwysigrwydd cyfraniad cydweithredol i gynorthwyo poblogaethau bregus ledled Cymru.

Bydd cynhadledd 2025 yn dechrau gyda fideo byr gan Jane Hutt, yr Ysgrifennydd Cyfiawnder Cymdeithasol.

### Neges Fideo gan Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet ar faterion Cyfiawnder Cymdeithasol

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i rannu neges adeg lansio strategaeth bregusrwydd ddiweddaraf Dŵr Cymru. Hoffwn ddiolch o galon i Ddŵr Cymru a'i bartneriaid o'r diwydiant am eich ymdrechion buddiol a chydweithredol sydd wedi arwain at gyflawni'r cyhoeddiad hwn. Mae'r ysbryd yma o gydweithio yn ein galluogi ni i weithredu mewn ffordd holistaidd mewn perthynas â rhai o'r problemau mwyaf sy'n ein hwynebu ni heddiw, ac yn sicrhau bod lleisiau pawb, gan gynnwys defnyddwyr yng Nghymru, yn cael eu clywed, a'u bod yn cael ystyriaeth haeddiannol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i helpu'r bobl sydd yn yr amgylchiadau mwyaf bregus, a bydd yn parhau i gydweithio'n agos â rhanddeiliaid i sicrhau mynediad teg a fforddiadwy at wasanaethau dŵr a charthffosiaeth i bawb. Mae ein hymdrechion cydweithredol trwy adolygiad Ofwat o brisiau yn golygu bod cwmnïau dŵr Cymru wedi ymrwymo i gynyddu eu cynlluniau tariff cymdeithasol yn sylweddol.

A bydd y cynlluniau hyn, o'u cyflwyno, yn gwneud tipyn i hybu cefnogaeth fel y gall y bobl fwyaf anghenus fanteisio i'r eithaf ar wasanaethau yn y gymuned. Diogelu'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau yw maen clo ein gwaith, ac roedd hi'n braf gweld bod cymaint o'r strategaeth yn gyson ag egwyddorion cynwysoldeb a hygyrchedd. Rwy'n croesawu ffocws y strategaeth ar hyrwyddo'r egwyddorion hyn, sydd wedi cael eu dylunio i ddarparu ar gyfer anghenion amrywiol defnyddwyr yng Nghymru.

Wrth i'r byd symud ar lein, rhaid i ni gadw'r rhai nad ydynt wedi addasu i'r norm newydd yma mewn golwg, a dileu rhwystrau digidol lle bynnag y bo modd. Nod strategaeth ddigidol Cymru yw taclu pobl â'r cymhelliant, y gallu a'r sgiliau digidol sy'n angenrheidiol i chwarae rhan yn y byd yma sy'n gynyddol ddigidol. Er gwaethaf hyn, byddwn ni'n ceisio sicrhau bod dewisiadau traddodiadol all-lein ar gael i'r rhai sy'n methu â gwneud, neu nad ydynt am wneud y newid yna. A bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i chwarae rhan greiddiol wrth gynorthwyo pobl ar draws Cymru sydd dan bwysau oherwydd costau byw. Ers 2022, buddsoddwyd dros £7 biliwn mewn cynlluniau amrywiol iawn sy'n cynorthwyo'r bobl fwyaf anghenus. Gallwn eich sicrhau bod y mentrau a ddatblygwyd gyda'n gilydd wir yn sbarduno newidiadau effeithiol ystyrlon. Mae'r pedair blynedd diwethaf wedi gweld cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth Dŵr Cymru'n fwy na threblu, o 80,000 i dros 275,000 o gwsmeriaid heddiw. Mae hynny'n golygu bod mwy o gwsmeriaid nac erioed o'r blaen yn cael y cymorth ychwanegol sydd ei angen arnynt. Hoffwn i orffen trwy ddiolch i chi i gyd unwaith eto am eich cyfraniadau wrth sicrhau bod cyflenwad dŵr diogel a dibynadwy ar gael i gymunedau difreintiedig. Rhaid i ymbweru ein pobl fwyaf bregus a darparu gwasanaethau o'r ansawdd y maent yn ei ddisgwyl ac yn ei haeddu, fod wrth galon popeth a wnawn, ac mae digwyddiadau fel yr un yma heddiw yn helpu i wneud hynny'n realiti. Diolch.

## **Kit Wilson Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cwsmeriaid a Datblygu, Dŵr Cymru Welsh Water**

Diolch o galon i'r Gweinidog am yr agoriad yna. Fy enw i yw Kit Wilson; fi yw'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cwsmeriaid yma yn Dŵr Cymru a hoffwn estyn croeso cynnes i chi i'n swyddfeydd ni heddiw. Mae hi'n hyfryd gweld cynifer o sefydliadau'n cael eu cynrychioli yma heddiw, ond mae'n hyfryd hefyd cael eich croesawu chi yma i'n swyddfeydd wrth i ni gynnal yr achlysur yma eleni. Mae'r achlysuron hyn wedi cael eu cynnal mewn gwestai mawr yn y gorffennol, ac rwy'n gobeithio y bydd dod â sefydliadau, cydweithwyr a rhanddeiliaid i gartref Dŵr Cymru'n helpu i ddod â'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu yn fyw i chi. Mae heddiw am ddysgu a rhannu ar draws ein holl bartneriaethau, ond hoffwn i ddechrau trwy ddod â'n strategaeth bregusrwydd newydd yn fyw i chi. Felly, i roi ychydig bach o gefndir, lansiwyd ein strategaeth bregusrwydd wreiddiol yn 2018, a dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydyn ni wedi bod yn gweithio'n galed i'w diweddaru ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, gan bennu ein strategaeth bregusrwydd hyd 2025  Ym mis Hydref, cyflwynwyd ein cynllun 5-mlynedd i Ofwat a chawsom lawer o adborth arno.

Roedd yna lawer o bethau nad oeddem wedi eu cynnwys, pethau y gallem wella arnynt, ac mae hi siŵr o fod yn deg dweud na wnaethom ni gyfiawnder â'n gwasanaeth bregusrwydd yn y cyflwyniad yna.

Ers mis Hydref, rydyn ni wedi gweithio'n galed iawn i ddiweddaru'r strategaeth, wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid, llawer o'r bobl sydd yn yr ystafell yma heddiw, rydyn ni wedi ymgysylltu â'r rheoleiddwyr, gyda'n grŵp herio annibynnol ac rydyn ni wedi ymgysylltu â chwsmeriaid hefyd. Fe ddefnyddion ni'r adborth yna i ddrafftio ein strategaeth ddiwygiedig, cyn ymgynghori eto er mwyn cael adborth i weld, a yw hyn yn taro'r nod, a yw hyn yn cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol? Ffrwyth y gwaith yna oedd cyflwyno ein drafft, neu gyflwyniad terfynol, i Ofwat ar 30 Mehefin eleni. Ac rydyn ni'n hynod falch o'r cyflwyniad yna.

Fodd bynnag, yn ystod yr amser yna, felly yn y flwyddyn ddiwethaf, mae llawer iawn wedi newid. Mae'r dirwedd gyfan yn nhermau'r gwasanaeth bregusrwydd rydyn ni'n ei ddarparu wedi newid. Fe fyddwch chi i gyd yn ymwybodol o hyn, ond mae gennym ni lywodraeth newydd yn San Steffan erbyn hyn. Mae mwy byth o gythrwfl byd-eang, sy'n dod â mwy o bwysedd, ac yn arbennig pwysedd ariannol i'n cwsmeriaid. Ac mae mwy a mwy o ffocws eto ar y sector dŵr. Fe fyddwch chi i gyd wedi gweld y pwysau yn y cyfryngau, y ffocws ar lefel genedlaethol, a'r pwysau gwleidyddol sydd ar y sector dŵr. Mae hynny wedi golygu bod angen buddsoddiad uwch nac erioed yn y sector dŵr. Felly bydd yna lefel uwch fuddsoddiad dros y pum mlynedd nesaf ar draws y DU i gyd er mwyn gwella'r deilliannau amgylcheddol ar gyfer yr holl gwsmeriaid. Felly ar yr un llaw, mae hynny'n beth positif. Er enghraifft, byddwn ni fel Dŵr Cymru yn gwario £2.5 biliwn ar wella deilliannau amgylcheddol ar gyfer ein cwsmeriaid, ac mae hynny'n hollol angenrheidiol. Rydyn ni wedi ymrwymo'n llwyr i hynny, ond mae angen i ni ddeall hefyd bod hynny'n golygu cynnydd sylweddol yng nghost ein biliau, ac mae hynny'n destun pryder i lawer o'n cwsmeriaid, ac yn arbennig y cwsmeriaid mwy bregus, felly nid yw ein strategaeth bregusrwydd erioed wedi bod yn bwysicach. Dydy hi erioed wedi bod yn

bwysicach i ni allu cefnogi'r cwsmeriaid mwyaf anghenus yng Nghymru, o ystyried y cefndir yna o bryderon am yr economi ehangach, y pryderon am gost ein biliau, biliau ynni ac ati. A dyna pam fod y strategaeth yma ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn allweddol i'r gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu yma yng Nghymru.

Ein dull o weithredu yn y strategaeth flaenorol oedd llunio dogfen hirfaith, i'w chyhoeddi, ac os ydw i'n onest, mae'n debyg na wnaeth y rhan fwyaf o bobl ddarllen y cyfan am ei bod hi'n ddogfen fanwl iawn.

Rydyn ni wedi creu dwy ddogfen y tro yma, ac un o'r rhain yw ein strategaeth sy'n dogfennu'r holl fanylion ynghylch sut y byddwn ni'n cynorthwyo cwsmeriaid yng Nghymru. Rydyn ni wedi llunio crynodeb gweithredol hefyd, felly dogfen tair tudalen, gyda Jody, un o'n swyddogion ymgysylltu partneriaid, ar y clawr yw honno. Mae'r ddogfen tair tudalen yna'n crynhoi'r manylion cyffredinol, yn hawdd ei darllen, ac ar gael ar ein gwefan ac mewn print. O ran strwythur, fe rannon ni'r strategaeth yn bedwar maes, sef data a dirnadaeth, cymorth hygyrch, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth, a chymunedau a phartneriaeth, a byddaf i'n cyffwrdd ar bob un i'w crynhoi.

A dyna fydd sylfaen y gwasanaeth bregusrwydd rydyn ni'n ei ddarparu yn Dŵr Cymru, ond  pwynt pwysig iawn, a'r gwahaniaeth mawr rhwng y strategaeth hon a'r un a grëwyd yn 2018 yw taw dull iteraidd o weithio yw hwn. Byddwn ni'n adolygu'r peth bob blwyddyn, ac yn cael adborth gan rhanddeiliaid, fel chi, a chan ein cwsmeriaid ar y pethau canlynol:

- A yw'r gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu'n bodloni'r anghenion a fwriedir.
- A oes unrhyw beth wedi newid yn nhermau'r ddarpariaeth y mae angen i ni ei ddarparu.
- A oes yna unrhyw beth arall y mae angen i ni ei ystyried, a oedd ein huchelgeisiau, ein targedau, yn gywir adeg eu pennu, a ddylen nhw fod yn uwch? A oes yna angen nad oeddem wedi ei ystyried, neu nad oedd ei angen pan ddrafftiwyd y strategaeth yn wreiddiol?

Felly, byddwn ni'n adolygu'r strategaeth ac yn ei diweddaru bob blwyddyn, sy'n newid sylweddol i'n ffordd o ddatblygu'r strategaeth yn y gorffennol. Byddaf i'n cyffwrdd ar rai o'r ffigurau i ddechrau. Gwnaeth y Gweinidog job dda o hybu ein cofrestr gwasanaethau blaenoriaeth, ac fel y dywedodd hi, mae gennym bron i 300,000 o gwsmeriaid arni erbyn hyn. Rwy'n siŵr y bydd y rhan fwyaf ohonoch chi'n gwybod beth yw ein cofrestr gwasanaethau blaenoriaeth, ond rhag ofn nad ydych chi, dyna'r gofrestr sy'n cofnodi anghenion cymorth amgen ein cwsmeriaid. Felly er mwyn dangos hynny ar waith, os oes digwyddiad yn codi lle mae ardal benodol yn colli ei chyflenwad dŵr, gallwn sicrhau nad yw'r cwsmeriaid ar y PSR mewn sefyllfa lle nad oes diweddariadau neu gyflenwadau dŵr amgen posibl ar gael iddynt. Mae yna bob math o wahanol anghenion o ran sut rydyn ni'n cyfathrebu â'r cwsmeriaid sydd ar ein cofrestr gwasanaethau blaenoriaeth, sy'n bwrw goleuni ar sut mae'r cysyniad yn gweithio.

Felly mae hynny'n golygu bod 20% o'n sylfaen o gwsmeriaid wedi cofrestru eisoes, dyna lle'r ydyn ni nawr, a dros y pum mlynedd nesaf, rydyn ni am gymryd hynny i 25%. Ac rwy'n credu y byddwn ni'n dod yn agosach at 30% yn y pum mlynedd nesaf. Rydyn ni'n cynnig llawer iawn o gymorth ariannol hefyd. Felly, mae model unigryw'r cwmni, y ffaith taw cwmni nid-er-elw ydyn ni, yn golygu bod yr hyn a fyddai wedi bod yn elw yn cael ei ail-fuddsoddi nôl yn ein cwsmeriaid. Mae tua £30 miliwn yn cael ei ail-fuddsoddi yn ein tariffau er budd y cwsmeriaid mwyaf anghenus bob blwyddyn. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n cynorthwyo dros 150,000 o gwsmeriaid trwy ryw fath o gynllun cymorth ariannol; ac er mwyn dod â hynny'n fyw i chi, mae gennym 1.4 miliwn o aelwydydd. Felly mae hynny'n gyfran uchel o gwsmeriaid sy'n derbyn cymorth trwy ein tariffau, sydd gyda'r uchaf ar draws y sector dŵr.

Mae ein cymorth yn cynnwys pethau fel ein tariff HelpU, lle gosodir cap ar eich bil yn seiliedig ar eich amgylchiadau. Rydyn ni'n cynnig ein Cronfa Gymorth i Gwsmeriaid, sydd yn ei dro yn dileu llawer o ddyledion cwsmeriaid sydd wedi bod yn cael pethau'n anodd, neu sydd ar ei hôl hi gyda'u biliau gyda ni. Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn ni'n cynyddu hynny i 180,000 o gwsmeriaid. Dyna yw ein huchelgais ni, dyna'r cyfeiriad rydyn ni'n mynd iddo. Trwy ein cysylltiadau a lefel y galw ers i'n biliau gynyddu, rydyn ni wedi eisoes wedi gweld cynnydd mawr yn nifer y cwsmeriaid sy'n gofyn am gymorth ac sy'n gallu manteisio ar un o'n tariffau cymdeithasol dros y 6 mis diwethaf.

Un o'r prif feysydd o adborth oedd gennych ynghylch ein strategaeth oedd sut rydyn ni'n defnyddio data i ddarparu gwasanaethau sydd wedi eu teilwra ar gyfer cwsmeriaid yng Nghymru yn well. Ac mae hyn wir yn

crynhoi sut mae pethau'n mynd. Felly roedd cytundeb da iawn gennym o ran rhannu data gyda phartneriaid eisoes, fel y DNOs lle rydyn ni'n rhannu data am wasanaethau blaenoriaeth â nhw, ac y maen nhw'n rhannu â ni, ac mae hynny'n caniatáu i ni gynyddu lefel y cwsmeriaid sydd gennym ar ein cofrestr gwasanaethau blaenoriaeth, a byddwn ni'n sicr yn gwneud mwy o hynny dros y pum mlynedd nesaf. Byddwn ni'n cyfarfod hefyd, ac yn defnyddio'r data i fonitro a mesur pa mor fodlon yw cwsmeriaid ar ein gwasanaeth yn hyn o beth. Rydyn ni'n gwneud hyn eisoes, ac mae ein gwasanaethau cwsmeriaid wedi denu lefelau eithriadol o uchel o ran boddhad cwsmeriaid â marc o dros 9 allan o 10, a byddwn ni'n parhau i ddefnyddio offer fel dadansoddeg lleferydd i fonitro hynny'n ddyddiol a sicrhau bod y gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu'n bodloni anghenion ein cwsmeriaid. Ond un o'r newidiadau mawr y byddwn ni'n eu gwneud dros y pum mlynedd nesaf, ac rydyn ni eisoes wedi dechrau gwneud hyn, yw defnyddio model data sy'n mapio'r mynegai o amddifadedd yng Nghymru yn erbyn targedau cymdeithasol. Mae hyn yn edrych ar ble mae yna lefelau uchel o amddifadedd, a ble nad oes gennym lefelau uchel o ddefnydd o'r tariffau cymdeithasol. Yn amlwg, dylai'r ddau beth yma fod yn gyson â'i gilydd, ac os oes yna ardal sydd ar lefel is o ddefnydd na'r cyfartaledd mewn ardal o amddifadedd mawr, mae angen i ni fod yn gwneud rhagor dros ein tîm partneriaeth.

Mae angen i ni estyn llaw, ac rydyn ni'n gwneud hynny yn yr ardaloedd hyn er mwyn sicrhau ein bod ni'n codi ymwybyddiaeth ac yn darparu cefnogaeth ar gyfer y rhai mwyaf anghenus. Data yw'r allwedd i sut rydyn ni'n bwrw ymlaen a'r cyfarwyddyd yma ac yn ei ariannu dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r golofn nesaf yn delio â chymorth hygyrch, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni'r amryw o ofynion o ran hygyrchedd ac yn darparu ar gyfer anghenion amrywiol. Ystyrir bod cyfathrebu â chwsmeriaid, yn arbennig ar adegau o straen ariannol neu weithredol, fel toriadau mewn cyflenwadau, yn bwysig yn hyn o beth. Mae'r dull o weithredu yn hyn o beth yn cynnwys pwyso a mesur a yw'r dulliau o gyfathrebu'n ddealladwy ac yn hygyrch – boed ar ffurf gohebiaeth ysgrifenedig, negeseuon e-bost, cysylltiadau llafar, neu trwy ddeunyddiau mewn fformatau fel ieithoedd niferus, Braille, sain a hawdd eu darllen.

Mae yna gynlluniau i ehangu'r ymdrechion hyn dros y pum mlynedd nesaf, ac mae'r rhain yn cael eu harwain gan ddau dîm allweddol: y tîm bregusrwydd yn swyddfa Linea, sy'n rhyngweithio â chwsmeriaid pob dydd ac yn darparu cymorth ar draws gwahanol feysydd gwasanaeth; a'r tîm cysylltu partneriaid, sy'n cydweithio â sefydliadau partner yn y gymuned i gynnig cymorth a hyfforddiant.

Mae yna bwyslais ar hygyrchedd digidol hefyd, gan gydnabod y defnydd cynyddol o'r wefan fel sianel cyfathrebu ar gyfer cwsmeriaid. Mae'r wefan wedi ennill gradd A+ dwbl am ei hygyrchedd, a chafodd gydnabyddiaeth am ei pherfformiad o fewn sector y cyfleustodau yn ddiweddar. Bydd cynnal a gwella'r safonau hyn yn parhau i fod yn ffocws dros y blynyddoedd nesaf.

Mae strategaeth newydd yn cael ei rhoi ar waith i ymestyn y cymorth i gwsmeriaid busnes sy'n gwasanaethu poblogaethau bregus, gan gynnwys cartrefi gofal, ysbytai ac elusennau. Y nod yw sicrhau bod y sefydliadau hyn yn cael cymorth digonol i barhau i ddarparu eu gwasanaethau hanfodol.

Y maes nesaf yw hyfforddiant, ac mae hwn yn un y mae'r tîm yn falch ohono. Mae pawb yn Dŵr Cymru sy'n gweithio mewn rolau sy'n delio â chwsmeriaid, yn cael hyfforddiant ar fregusrwydd. Rydyn ni wedi hyfforddi dros fil o gydweithwyr wyneb yn wyneb dros y 12 mis diwethaf, ac mae'r adborth rydyn ni'n ei gael ar yr hyfforddiant yna'n wych. Mae ein tîm yn teimlo'n fwy hyderus wrth gynorthwyo a darparu gwasanaethau gwell i bawb. Yn rhan o hyn, mae gennym achrediad ISO am ein gwasanaethau i bobl fregus. Ond yn ogystal â hynny, rydyn ni'n gwneud pethau fel sesiynau addysgu misol, lle mae ein sefydliadau partner yn dod atom i siarad am y gwasanaethau y maent yn eu cynnig, a sut y gallwn gydweithio'n well i gynorthwyo a deall sawl math o gwsmeriaid.

Ffocws olaf ein strategaeth yw cysylltu cymunedau a phartneriaid. Bob blwyddyn, rydyn ni'n cydweithio â dros 300 o bartneriaid ar draws Cymru, ac rydyn ni wedi ymrwymo i gynnal y perthnasau hyn. Trwy fabwysiadu dull holistaidd o weithredu, rydyn ni'n cynorthwyo ein cwsmeriaid trwy ddatblygu clystyrau newydd – gan gydweithio ag asiantaethau mewn gwahanol ranbarthau. Er enghraifft, yn Aberteifi, rydyn ni'n uwchraddio'r rhwydwaith dŵr er mwyn wella'r amgylchedd, ac rydyn ni'n cydweithio'n agos â phartneriaid lleol i fynd i'r afael ag unrhyw achosion o fregusrwydd ac effeithiau hynny. Rydyn ni'n cynnig

cronfa gymunedol i gynorthwyo grwpiau lleol hefyd, gan bwysleisio ein hymrwymiad ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Beth fydd ein camau nesaf? Bydd y strategaeth yn parhau i ddatblygu wrth i ni gysylltu cwsmeriaid, cydweithwyr a chymunedau. Mae hi'n broses iteraidd, ac rydyn ni wir yn gwerthfawrogi eich adborth; caiff ei ymgorffori i fersiynau'r dyfodol o'r strategaeth. Y flwyddyn nesaf, byddwn ni'n asesu'r diweddariadau angenrheidiol ac yn eu rhoi ar waith. Mae adborth yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein dull o weithredu'n parhau i fod yn gyson â'n pwrpas craidd o fodloni anghenion y gymuned. Os, ar ôl y flwyddyn gyntaf, y ffeindiwn ni nad yw amcan gwreiddiol yn cyflawni'r amcan yma, byddwn ni'n ei addasu ar sail eich mewnbwn a'ch dirnadaeth chi. Bydd bod yma heddiw yn rhoi cyfle i ni ddatblygu, dysgu a thyfu.

## Steven Donovan, Ovo Energy

Mae hi’n bleser cael bod yma heddiw a chlywed Kit yn pwysleisio ein hamcanion cyffredin, yn arbennig o ran sut y gallwn wella ein cymorth i gwsmeriaid sydd angen cymorth ychwanegol. Trwy edrych ar ein prosesau o safbwynt y cwsmer, gallwn ddod o hyd i welliannau ystyrlon. Rydw i wedi cael gwahoddiad yma heddiw i siarad am ddata.

Rwy’n dwlu ar ddata ac mae sut rydyn ni’n ei ddefnyddio mor bwysig i ddeall beth rydyn ni’n ei wneud ac ymhle. Rydyn ni wedi gweld cynnydd mawr mewn prisiau ac anwadalwch yn y farchnad ynni dros y blynyddoedd diwethaf. Mae’r cap ar brisiau a gyflwynodd y llywodraeth wedi cynorthwyo ac hamddiffyn rhai o’n cwsmeriaid rhag rhai o’r costau. Ond wrth edrych ar rhai o’r ystadegau sydd gennym ar hyn o bryd, mae bron i 6 miliwn o gartrefi ar draws y DU mewn tlodi ynni o hyd.

Heddiw byddaf i’n edrych ar 2 astudiaeth achos, ein PSR (cofrestr blaenoriaeth) ni ein hunain, a’n rhaglen sy’n seiliedig ar le.

Dull safonol o gasglu data ar y sylfaen o gwsmeriaid a glustnodwyd fel rhai bregus yw’r PSR, a hynny er mwyn cael gwell dealltwriaeth o’u hanghenion a darparu cymorth priodol ar eu cyfer. Dros y ddwy flynedd diwethaf, ychwanegwyd 300,000 yn rhagor o gwsmeriaid at y gofrestr. Ar hyn o bryd, mae mwy nac 1.3 miliwn o gwsmeriaid yn cael cymorth trwy’r PSR, sy’n uwch na chyfanswm nifer cwsmeriaid rhai cwmnïau ynni. Mae ystyriaeth am yr unigolion hyn yn cael ei hymgorffori i weithrediadau pob dydd.

Rydyn ni’n darparu atebion cyfathrebu hyblyg ar gyfer ein holl gwsmeriaid. Mae adnabod y gwahanol fathau o anghenion sydd gan gwsmeriaid yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau’n gynhwysol i bawb. Mae yna gamganfyddiad cyffredin nad yw unigolion bregus yn defnyddio platfformau digidol neu’n cyrchu ein gwasanaethau ar lein; ond nid yw hynny’n wir. Mae hi’n galonogol gweld Dŵr Cymru’n blaenoriaethu hygyrchedd digidol ar bob cam yn siwrnai’r cwsmer. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi gweld biliau ar lein cyfrifon cwsmeriaid PSR yn cynyddu o 3,000 o 21,000. Rydyn ni wedi gweld ein biliau hyblyg, fel rhai hawdd eu darllen neu mewn Braille, yn cynyddu o 5,000 i 24,000.

Rydyn ni’n defnyddio AI yn OVO er mwyn canfod ac ymateb i fregusrwydd cwsmeriaid. Er bod AI yn dal i ddatblygu, rydyn ni’n sicrhau ei bod hi’n cael ei defnyddio mewn ffordd ystyriol er mwyn deall anghenion cwsmeriaid heb golli’r cysylltiad dynol yna. Mae ein AI yn cynorthwyo timau i hyrwyddo PSR, canfod achosion o fregusrwydd, a chyfoethogi’r gwasanaethau i gwsmeriaid.

Rydyn ni’n defnyddio ein Hyb Cymorth sy’n cael ei bweru gan Experian hefyd. Mae’r gwasanaeth yma’n darparu opsiwn ‘dweud unwaith’, sy’n caniatáu i Experian rannu’r wybodaeth yna â’r holl wahanol fathau o gredydwyr. Mae’n caniatáu i’r cwsmer rannu gwybodaeth unwaith er mwyn i’r camau cywir gael eu cymryd, a’i gwneud yn haws i’r holl gwsmeriaid ddatgelu eu hanghenion.

Lansiwyd pecyn cymorth ychwanegol OVO yn Hydref 2022 gyda buddsoddiad ychwanegol o £150 miliwn i ddarparu cymorth ariannol uniongyrchol ar gyfer tua 100,000 o gwsmeriaid er mwyn helpu i leihau tlodi tanwydd. Mae tua 90% o’r rai sy’n gofyn am gymorth ariannol wedi eu cofrestru ar ein PSR hefyd.

Gan ddefnyddio ein data helaeth, rydyn ni wedi ehangu ein rhaglen sy’n seiliedig ar le trwy fapio Cymru mewn amryw o ffyrdd. Mae hyn yn ein helpu ni i glustnodi ardaloedd a darparu cymorth wedi ei deilwra ar gyfer gwahanol fathau o gartrefi a chwsmeriaid.

Dim ond 42% o bobl sy’n ymddiried mewn cwmnïau ynni ar gyfer cyngor gwrthrychol ar ynni cynaliadwy, felly ein nod oedd meithrin ymddiriedaeth trwy ddefnyddio mentrau cymunedol. Lansiwyd ein hyb OVO yng Nghasnewydd, gan bartneru â sefydliadau fel Dŵr Cymru er mwyn sicrhau dull holistaidd o weithredu. Dewiswyd Casnewydd oherwydd y lefelau uwch o ddiweithdra sydd yno (4.1% o gymharu â chyfartaledd o

3.1% ar draws Cymru), am fod gennym 7,000 o gwsmeriaid yno, gyda 33% ohonynt ar y PSR (sy'n uwch na'r cyfartaledd), a graddau isel o ran EPC cartref, oedd yn ei gwneud hi'n lle delfrydol i arbrofi â'n hyb. Rydyn ni'n dibynnu ar aelodau o'r gymuned y mae pobl yn ymddiried ynddynt i godi ymwybyddiaeth am yr hyb, yn hytrach na'i hyrwyddo'n uniongyrchol. Nid ydym ni'n gwerthu dim, ac rydyn ni'n darparu'r cymorth yna i gwsmeriaid nad ydynt gydag OVO hyd yn oed.

Rydyn ni bellach wedi cyflwyno'r cynllun yma yn Glasgow, Bryste ac Inverness hefyd, ac mae rhagor i ddilyn. Dyma rhai o'r ffigurau allweddol o'n rhaglen sy'n seiliedig ar le

- 1767 o deuluoedd wedi cael cymorth y gaeaf diwethaf
- 61% o aelwydydd ag incwm llai nag £17k
- 85% yn poeni am gost ynni
- 25% erioed wedi clywed am PSR
- 98% yn meddwl yn fwy positif am OVO

Ar hyn o bryd, mae mwy na 16 o bartneriaid yn cymryd rhan yn yr hybiau hyn, gan gynnig cymorth gan sefydliadau fel yr heddlu, y cyngor, ac amryw ddarparwyr o fyd y cyfleustodau.

## Helen Hancock, Bipolar UK

Gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch i bobl ag anhwylder deubegynnol.

Beth yw anhwylder deubegynnol? Salwch meddwl difrifol (SMI) yw anhwylder deubegynnol sy'n cael ei nodweddu gan newidiadau eithafol mewn hwyliau a lefelau egni. Gall rhywun ag anhwylder deubegynnol fod â chyfnodau hir neu fyr o sefydlogrwydd, wedyn mynd 'yn isel' (i iselder mawr) neu 'i hwyliau' (hypomania, mania neu seicosis). Mae hwyliau cyfnewidiol anhwylder deubegynnol yn mynd ymhell y tu hwnt i brofiadau pob dydd y rhan fwyaf o bobl o deimlo ychydig bach yn isel neu'n hapus.

Er mwyn helpu i esbonio eithafion hwyliau, mae Bipolar UK yn defnyddio Graddfa Hwyliau lle mae 0 yn isel a 10 yn uchel.

Gall pobl brofi newidiadau sydyn iawn, ac mae'r cyfnod rhwng newidiadau mewn hwyliau'n amrywio o un person i'r llall. Fe siaradais i'n ddiweddar â rhywun oedd wedi bod yn rheoli eu hanhwylder am 13 blynedd nes atglafychu'n ddiweddar a chael eu hanfon i'r ysbyty, a nawr maen nhw'n ceisio rhoi pethau nôl ar ben ffordd eto.

Ar hyn o bryd, mae gan dros 50,000 o bobl yng Nghymru anhwylder deubegynnol. Mae tua 1 person ym mhob 50 yng Nghymru yn byw ag anhwylder deubegynnol. Mae hynny'n fwy na nifer y bobl sy'n byw â dementia neu ag anhwylderau dysgu. Anhwylder deubegynnol yw un o sialensiau iechyd meddwl mwyaf y 21ain ganrif, gan gyfrif am bron i 17% o faich gwaith gwasanaethau iechyd meddwl, gyda rhyw 2% o'r boblogaeth yn delio gyda rhywun, neu'n byw gydag anhwylder deubegynnol.

Ar gyfartaledd, mae'n cymryd 11.9 mlynedd i gael diagnosis o anhwylder deubegynol yng Nghymru, o gymharu â 9.4 mlynedd yn Lloegr. Bydd tua 50% o bobl ag anhwylder deubegynnol yn atglafychu bob blwyddyn, ac mae dros hanner ohonynt wedi gorfod treulio amser mewn ysbyty oherwydd yr anhwylder. Mae pobl ag anhwylder deubegynnol yn wynebu gwahaniaethau mawr o ran iechyd, gyda chyfraddau uwch o ordewdra, a disgwyliad oes sydd rhwng 10 a 15 mlynedd yn llai.

**Problemau sy'n wynebu pobl ag anhwylderau deubegynnol a'u teuluoedd**

- Mynd i'w cragen a theimlo'n ynysig
- Hypomania neu fania
- Meddwl am hunanladdiad
- Colli galluedd meddyliol
- Ymddygiad byrbwyll

- Gorwario
- Caledi ariannol
- Paranoia
- Sbarduno straen
- Anhawster rheoli emosiynau
- Cydafiecheddau fel gorbryder neu anhwylderau iechyd meddwl eraill

Wrth feddwl am anhwylder deubegynnol, mae'r bobl sy'n dioddef yn ei chael hi'n anodd cadw swydd, a bod yn gallu rheoli ac ymdopi â'u harian. Byddan nhw'n ffeindio pethau'n anodd hefyd am y bydd llawer o bobl yn hunan-ynysu ac yn cadw draw wrth gysylltiadau a'r gymuned. Mae Bipolar UK yn darparu grwpiau cymorth gan gymheiriaid, llinell gymorth gan gymheiriaid, sgyrsiau cymunedol ar lein, cyrsiau hunan-reoli ac eiriolaeth. Yng Nghymru, rydyn ni'n cynnig cymorth wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd, Pontypridd ac Abertawe. Ar lein, rydyn ni'n cynnig cymorth ar draws Abergele, Aberhonddu, Pen-y-bont ar Ogwr, Cwmbrân, Dolgellau, Dinbych y Pysgod, Merthyr Tudful a Wrecsam.

Mae gennym ni wasanaethau ar y gweill yng Nghaerfyrddin, Prestatyn a chynllun i gwmpasu Cymru gyfan ar lein a thrwy ein llinell gymorth hefyd.

Rydyn ni'n falch o gael Heston Blumenthal yn gennad i ni, rhywun sydd wedi siarad yn agored ac yn ddi-flewyn ar dafod am ei brofiadau o fyw gydag anhwylder deubegynnol.

Mae cyfathrebu effeithiol ac empathetig ag unigolion sy'n wynebu anawsterau'n bwysig, yn arbennig adegau o anghyfleustra fel colli cyflenwadau dŵr. Mae negeseuon clir yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth hanfodol yn cyrraedd y cwsmeriaid o dan sylw. Er enghraifft, gall unigolion sy'n byw ag anhwylder deubegynnol wynebu cyfyngiadau wrth gyrchu ffynonellau dŵr amgen os oes toriad yn eu cyflenwad ac os nad oes cymorth allanol ganddynt.

Gallwch gael rhagor o fanylion trwy fynd i www.bipolaruk.org neu ffonio 03333233885

## Chaz Hampton, Cyngor Cymru i Bobl Fyddar

### Y Gymuned Fyddar yng Nghymru - Ystadegau (mae dehonglydd iaith arwyddion yn siarad dros Chaz wrth iddo arwyddo)

Charles, neu Chaz, ydw i ac rydw i yma'n cynrychioli Cyngor Cymru i Bobl Fyddar. Rydw i yma heddiw i edrych ar ffyrdd o godi ymwybyddiaeth am bethau sy'n ymwneud â'r gymuned fyddar. Fy rôl i yw mynd allan i'r gymuned a gweithio gyda sefydliadau fel y gallwn gydweithio i ddod â mwy o gymorth i bobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw. Mae llawer wedi newid ers Covid, mae llawer o bobl fyddar hŷn a chlybiau wedi diflannu, ac mae mwy o bobl yn troi at y Cyngor i Bobl Fyddar am gymorth.

Mae tua 575,000 o bobl yng Nghymru – tua un ym mhob pump – yn fyddar neu'n drwm eu clyw. Mae hynny'n cynnwys unigolion sy'n fyddar o ran eu diwylliant, aelodau o'r gymuned fyddar, y rhai sy'n drwm eu clyw, pobl sy'n darllen gwefusau neu iaith arwyddion, ac unigolion sy'n fyddar ac yn ddall y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt.

Mae adroddiad gan Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif fod yna rhwng 5,600 a 7,300 o ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydeinig yng Nghymru, sydd i gyfrif am rhwng tua 0.18 a 0.23 y cant o boblogaeth Cymru.

Nid oes gan BSL statws cyfreithiol na'r un gefnogaeth â'r Gymraeg a'r Saesneg, sy'n sicr yn gadael defnyddwyr BSL yng Nghymru dan anfantais ddwbl gan y ddwy iaith. Mae cyfradd is o bobl fyddar mewn cyflogaeth na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Yn ôl gwaith ymchwil, ar gyfartaledd, mae myfyrwyr byddar yn cwblhau eu haddysg orfodol â lefel darllen plentyn 8-oed (Rowley, 2023) ac maent yn llai tebygol o lwyddo i ennill cymwysterau TGAU o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol (Wilks & O'Neill, 2022).

Am fod iaith arwyddion yn iaith yn ei hawl ei hun, mae'n anodd i bobl o'r gymuned fyddar gael yr un lefel o gymorth wrth fynychu apwyntiadau doctor, ysbyty a gyda sefydliadau eraill. Mae BSL, sy'n iaith yn ei hawl ei hun, yn iaith weledol, ystumiol. Rydyn ni'n cyfathrebu gan ddefnyddio ein dwylo, ein cyrff, ein hwynebau, ac yn dibynnu'n aml iawn ar ddehonglwyr i gyfathrebu. Nid oes yna unrhyw ysgolion i blant byddar yn unig ar hyn o bryd. Felly efallai y byddwn ni'n mynd i ysgol y brif ffrwd, uned clyw rhannol, ac efallai y byddwch chi'n gwrando, yn gwrando i bob pwrpas, trwy weithiwr cymorth cyfathrebu CSW. Ond byddai eu lefel iaith yn eithaf isel o ran iaith arwyddion, efallai ar lefel un neu ddau, a dyna lefel yr iaith y mae'r plentyn yn ei gael. Yn ddelfrydol, dylent fod ar lefel tri neu hyd yn oed lefel chwech. Lefel chwech yw'r lefel sydd ei angen arnoch am hyfforddiant dehongli. Ond os meddyliwch chi fod y plant yma'n cyrchu eu haddysg trwy'r lefel is yma o iaith, fyddan nhw byth yn cyflawni canlyniadau da. Efallai eu bod nhw'n gadael yr ysgol yn 16, 18 neu 20 oed, a bod ganddynt lefel darllen plentyn wyth oed yn Saesneg.

Mae cyfathrebu'n ymestynnol pan fo mynediad at yr iaith yn gyfyngedig, sy'n ei gwneud hi'n anodd i blant lwyddo yn yr ysgol neu gael gwaith. Mewn cyfweliadau am swyddi, yn aml nid yw dehonglwyr ar gael oherwydd prinder amser neu staff. Mae prinder dehonglwyr yng Nghymru'n gwneud cael y cymorth angenrheidiol yn fwy cymhleth byth.

Weithiau, mae angen i ni aros am wythnosau i gael cymorth angenrheidiol ar gyfer cyfathrebu sylfaenol. Rydyn ni'n clywed nad oes yna wasanaeth ar gael i helpu, a bydd llawer o lefydd yn ysgrifennu pethau i lawr ac yn disgwyl i ni ddeall, ond eto, nid Saesneg yw ein hiaith gyntaf, felly gallai hynny beri rhwystredigaeth neu oedi gyda'r cymorth sydd ei angen arnom ni.

Mae pethau fel trafnidiaeth, iechyd ac addysg yn anodd i bobl yn y gymuned fyddar. Allwn ni ddim â ffonio'r meddyg pan fyddwn ni'n sâl, rhaid aros am y dehonglydd, ac mae hynny'n gallu gohirio unrhyw gymorth meddygol sydd ei angen ar bobl.

Dyma rhai ystadegau allweddol am y gymuned fyddar yng Nghymru

- Ar y cyfan pobl fyddar sy'n defnyddio BSL yn profi deilliannau iechyd gwaeth oherwydd mynediad cyfyngedig at wasanaethau gofal iechyd (Emond et al., 2015b)
- Mae arwyddwyr BSL byddar yng Nghymru dwywaith yn fwy tebygol o brofi problemau iechyd meddwl o gymharu â phobl sy'n gallu clywed, ond nid oes unrhyw wasanaethau iechyd meddwl arbenigol ar gyfer pobl fyddar neu trwy BSL.
- Mae yna brinder dehonglwyr a chyfieithwyr BSL, sy'n dwysáu problemau arwyddwyr BSL byddar fel dinasyddion Cymru.
- Daeth Deddf BSL 2022 i rym ar 28 Mehefin 2022, ac mae'n cydnabod BSL fel un o ieithoedd Cymru, Lloegr a'r Alban (adran 1(1)), ond nid yw'n berthnasol i faterion datganoledig yng Nghymru fel addysg, iechyd a thrafnidiaeth.
- Mae angen Deddf BSL i Gymru: bydd y Bil yma'n cydategu'r ddeddfwriaeth yma ac yn helpu i wella'r ddarpariaeth BSL ar draws Cymru (Senedd Cymru 2022) * Gwnaeth Mark Isherwood AS ddatganiad: Cyflwyno Bil wedi ei Gynnig gan Aelod - Bil Iaith Arwyddion Prydeinig (Cymru) yn y Senedd ddoe (16 Gorffennaf 2025)

Sut gallwn ni wella mynediad ar gyfer unigolion sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw? Trwy gydnabod hwyrach nad Saesneg ysgrifenedig yw eu hiaith gyntaf. Gallwn ddefnyddio codau QR i gysylltu â fideos BSL sy'n esbonio llythyrau neu filiau, gan sicrhau cyfarwyddiadau clir a lleihau aros diangen.

O ran fy nghefndir i: Fe gefais i lid yr ymennydd pan oeddwn i'n 18 mis oed, a achosodd broblemau parhaus gyda fy nghydbwysedd. Wrth i mi dyfu i fyny, roedd rhai unigolion yn tybio ar gam fy mod i'n feddw am fy mod i'n gwegian wrth gerdded; ac un tro, gofynnodd swyddogion y gyfraith i mi gerdded mewn llinell syth. Esboniais i nad oeddwn i dan ddylanwad dim, ond yn hytrach yn fyddar, ac esboniais i fod fy mhroblemau o ran cydbwysedd yn amlycach mewn golau pwl – rhywbeth sy'n dod yn aml yn sgil llid yr

ymennydd. Yn ogystal, nid Saesneg yw fy iaith gyntaf, felly rydw i'n aml yn gorfod dibynnu ar eiriadur i gyfathrebu'n effeithiol.

Soniodd ffrind am sefyllfa mewn clwb i bobl fyddar lle'r oedd angen dehonglydd i helpu i esbonio gwybodaeth bwysig. Heb ddehonglydd, roedd yna risg sylweddol o gamddeall. Er enghraifft, pan fo rywun yn derbyn bil, mae'n bosibl y byddan nhw'n tybio bod swm penodol yn ddyledus, ond na fyddan nhw'n deall y manylion yn llwyr ac yn ei roi i'r neilltu. Yn y gorffennol, byddai biliau papur wedi cyrraedd gyda marciau coch i ddangos bod yna frys i dalu, fel rhybudd clir i dalu'n brydlon. Wrth i fwy a mwy o brosesau symud ar lein, hwyrach na fydd rhai unigolion yn sylweddoli bod taliad yn ddyledus am nad yw negeseuon atgoffa'r un mor amlwg ag o'r blaen, yn enwedig i'r rai sy'n fwy cyfarwydd ag ymdrin ag arian wyneb yn wyneb yn y banc. Ond mae hi'n genhedlaeth newydd, mae pethau'n newid. Mae'r cyfan am y cyfryngau cymdeithasol, sy'n wych. Ond mae angen o hyd i ni gofio'r bobl yna sydd am fod yn annibynnol, ond sy'n gweithredu ar sail ffordd hŷn o brosesu pethau, ac mae'r syniad o ddefnyddio'r Rhyngrwyd yn eu dychryn. Felly mae hi am feddwl am ffyrdd gwahanol o gynorthwyo holl wahanol aelodau'r gymdeithas, ac efallai dod ynghyd a siarad â'n gilydd i ddod o hyd i ffordd well o fynd ati.

- Ac un peth arall i feddwl amdano… pe bai person byddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydeinig (BSL) yn dod atoch chi/cysylltu â chi yn rhan o'ch rôl yn Dŵr Cymru, sut fyddech chi'n sicrhau eich bod chi'n cyfathrebu â nhw mewn ffordd effeithiol a pharchus?

## <u>Jo Seymour, Cymru Gynnes</u>

Jo ydw i, fi yw'r cyfarwyddwr partneriaethau ac rwy'n mynd i siarad am werth cymuned a phartneriaeth. Rydw i wrth fy modd yn siarad, yn angerddol iawn am fy ngwaith, ac yn wir, nid oes modd i ni wneud dim heb weithio gyda'n gilydd. Rwy'n credu taw dyna yw'r peth mwyaf. Rydyn ni wedi clywed llwyth o ddata, llwyth o wybodaeth am y sefyllfa sydd ohoni yn y DU ac yn ar draws Cymru, a'r gwir syml amdani yw, na all yr un sefydliad ddatrys sialensiau cymdeithasol cymhleth ar ei ben ei hun.

Felly rydw i am fynd trwy ychydig bach o'r wybodaeth gefndir o ran costau byw a thlodi. Rydyn ni i gyd wedi gweld nifer o'r ystadegau hyn, ond mae 22% o boblogaeth Cymru'n byw mewn tlodi. Dyna 200,000 o blant yn byw mewn tlodi, ac yn amlwg, dyna beth mae angen i ni feddwl amdano. Mae angen i ni feddwl am beth rydyn ni'n ei wneud dros ein plant wrth edrych tua'r dyfodol. Mae 26% ohonynt yn dod o aelwydydd sy'n gweithio, ac eto, rwy'n meddwl bod hynny'n rhywbeth y mae angen i ni fod yn ymwybodol iawn ohono. Yn y gorffennol efallai y gallem fod yn edrych ar unigolion hynny a oedd yn dibynnu ar ryw fath o fudd-dal. Ydyn, rydyn ni'n gwybod eich bod chi'n byw ar aelwyd sy'n gweithio, ond gallwch chi dderbyn budd-dal. Ac fe glywsom ni gan OVO am y nifer o bobl a'u canfyddiadau nhw am faint o arian sydd gan bobl i fyw. Ac rwy'n credu ei bod hi'n beth allweddol i fod yn ymwybodol iawn ohono. Ac eto, mae 90% o'r bobl sy'n derbyn credyd cynhwysol yn mynd heb un o'r hanfodion, fel bwyd i un aelwyd, dillad digonol neu stwff ymolchi. Felly eto, mae angen siarad am y wybodaeth yma, ac mae'n rheswm hefyd pam fod angen i ni weithio gyda'n gilydd.

**Yr effaith ar gostau ynni**

- Mae tua **6 miliwn** o aelwydydd yn y DU mewn tlodi tanwydd ar hyn o bryd, **2 filiwn** yn fwy nac yn 2021.
- Yng Nghymru, gallai **45% (614,000)** o aelwydydd fod mewn tlodi tanwydd a gallai **15% (201,000)** o aelwydydd fod mewn perygl o ddisgyn i dlodi tanwydd.
- Mae costau ynni **41%** yn uwch nac yng ngaeaf 2021.
- Mae dyledion ynni cyfredol ar lefel o **£4 biliwn**.
- Amcangyfrifir bod salwch sy'n gysylltiedig â chartrefi oer a llaith yn costio mwy na **£2.5 biliwn** y flwyddyn i'r GIG, sydd gyfwerth â **£6.9 miliwn** y dydd, i fyny o **£3.6 miliwn** yn 2016.

Wrth ystyried nifer yr unigolion sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw – amcangyfrifir fod yna 575,000 ohonynt – a'r rhai sy'n byw mewn tlodi, mae hi'n amlwg fod yna orgyffwrdd sylweddol rhwng y grwpiau hyn. Mae hi'n bwysig myfyrio ar sut y gallwn ni gynorthwyo'r cymunedau hyn gyda'n gilydd, a chydnabod y rolau rydyn ni i gyd yn eu chwarae. Mae'r newidiadau hyn yn aml yn effeithio ar yr un unigolion, pwynt sy'n dal i fod yn greiddiol i fy myfyrdodau.

Mae gen i gefndir fel ymarferydd iechyd amgylcheddol, ac rwy'n ymarferydd iechyd cyhoeddus cofrestredig hefyd. Mae fy ffocws ar ddeall y cysylltiadau rhwng effeithiau ac atal, yn arbennig o ran amgylchedd y cartref. Mae hi'n bwysig ystyried agweddau ffisegol y cartref a mynediad iddo, am fod y ffactorau hyn yn effeithio ar lesiant yn gyffredinol. Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd, anheddiad yw'r seilwaith ffisegol, a chartref yw'r cyd-destun cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd sy'n cael ei greu gan unigolion neu aelwydydd.

Rhaid i gartrefi chwarae rhan ganolog yn ein trafodaethau. Yn ôl hierarchaeth anghenion Maslow, mae'r gallu i gael hanfodion fel bwyd, dŵr, gorffwys a lloches ddiogel yn allweddol i alluogi unigolion i gyflawni eu potensial llawn. Mae'r anghenion sylfaenol hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cydweithio a phartneriaethau wrth fynd i'r afael â'r materion hyn yn effeithiol.

Mae llawer o bobl yn ceisio cyllid o amryw o ffynonellau, gan gynnwys elusennau, ac yn aml yn wynebu sialensiau wrth glustnodi cyfleoedd dibynadwy i gael cyllid. Mae'r pryder parhaus yma'n pwysleisio'r angen am weithredu ar y cyd. Gallai annog sefydliadau sy'n darparu cyllid i gefnogi cydweithio yn hytrach na chystadlu sbarduno deilliannau mwy effeithiol a chyfleoedd gwell.

O safbwynt cymunedol, mae hi'n bwysig cydnabod faint o ymdrech sy'n mynd i ofyn am gymorth. Os yw rhywun yn dewis datgysylltu ar ôl hynny, mae angen ystyried y rhesymau posibl dros y penderfyniad hwnnw yn hytrach na thybio nad oes diddordeb ganddynt. Mae meithrin ymddiriedaeth o fewn cymunedau a hwyluso mynediad at gymorth yn ffactorau allweddol wrth fynd i'r afael â'r materion hyn.

O safbwynt llesiant, mae hi'n bwysig cydnabod nad yw llesiant yn ymwneud yn unswydd ag absenoldeb afiechyd; yn hytrach, mae'n adlewyrchu sut y mae unigolion yn eu gweld eu hunain a'u bywydau. Nod ein gwaith cydweithredol yw cyfoethogi hyn trwy gynorthwyo pobl i fagu dycnwch.

Fe fyddwn ni'n dod yn elusen yn swyddogol ar 1 Awst 2025.

Ein ffocws o hyd yw – Anelu at ddarparu cartrefi â gwres fforddiadwy a lleddfu tlodi tanwydd ar draws y wlad a

*"gweithio gydag eraill i liniaru tlodi tanwydd a darparu gwres fforddiadwy ar gyfer cartrefi yng Nghymru. Yn hynny o beth, ein nod yw gwneud gwahaniaeth ym mywydau pob dydd pobl yng Nghymru a de-orllewin Lloegr trwy wneud eu cartrefi'n fwy effeithlon o ran ynni, iach, cyffyrddus, parhaol a fforddiadwy"*

*"Ein cenhadaeth yw ymbweru pobl i wneud y dewisiadau a'r penderfyniadau cywir drostyn nhw eu hunain er mwy eu galluogi i liniaru tlodi tanwydd a dod yn fwy gwydn"*

Ein Sylfaen: Pedwar piler cymorth Cymru Gynnes

- Iechyd a gwaith atal
- Cyswllt â'r Gymuned
- Cymorth yn y Gymuned
- Gwres Fforddiadwy ac Effeithlonrwydd Ynni

Darparu cymorth o dan y pedwar piler allweddol er mwyn lliniaru effeithiau tlodi tanwydd trwy geisio gwella effeithlonrwydd ynni, darparu cymorth ariannol, darparu cyngor ac addysg ar ynni, a buddsoddi mewn atebion ynni adnewyddadwy.

Tynnu cyngor ar ynni, cymorth gwaith achosion, ymwybyddiaeth a newid ymddygiad ynghyd ochr yn ochr â phresgripsiynu cymdeithasol a mentrau llesiant i wella deilliannau iechyd trwy fynd at wraidd y broblem. Mae'r model holistaidd yma'n cysylltu iechyd, llesiant, ac ymyrraeth gynnar er mwyn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl.

Yng Nghymru Gynnes, rydyn ni'n credu bod pawb yn haeddu cartref cynnes, diogel ac iach. Rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, fe estynnon ni allan at 770 o drigolion ar draws ein cymunedau er mwyn deall sut mae ein cefnogaeth ni wedi gwneud gwahaniaeth yn eu bywydau.

O'r 770 o bobl y cysylltwyd â nhw:

- Dewisodd 342 o drigolion i gymryd rhan yn ein harolwg adborth — 44%
- Gwrthododd 387, ond mae pob un llais yn bwysig, ac rydyn ni'n ddiolchgar i'r rhai a rannodd eu profiadau.

## Y Sesiwn Holi ac Ateb

**Cwestiwn 1 – Sut mae'r gwahanol sialensiau wedi effeithio arnoch chi ar draws Cymru? A oes yna wahaniaeth rhwng ardaloedd trefol a gwledig?**

Steve – OVO – Yn ein hyb OVO yn y Maendy, Casnewydd, fe wynebon ni sialensiau am fod llawer o bobl leol yn siarad ieithoedd fel Arabeg, yn wahanol i ardaloedd fel y Pilgwenlli a oedd yn defnyddio WhatsApp i gyfathrebu. Os nad ydych chi'n defnyddio'r dull mwyaf effeithiol o gyfathrebu ar gyfer eich ardal darged, yna bydd y cysylltiad yn isel. Ac wedyn yn rhai o'n hardaloedd mwy gwledig, bu angen defnyddio papur newydd am fod pethau fel signal ffôn symudol yn wael, felly ni fydd cysylltiadau digidol mor effeithiol â'r ffurf ysgrifenedig. Mater o sicrhau eich bod chi'n deall eich ardal darged yw hi, nid dim ond yn troi i fyny ac yn disgwyl i rywbeth a weithiodd mewn un ardal weithio mewn un arall hefyd. Mae meddylfryd hyblyg, sy'n caniatáu i chi fodloni anghenion yr ardal yna'n gweithio'n dda.

Helen – Bipolar – Fel elusen iechyd meddwl, rydyn ni'n gweld bod dwyster y boblogaeth yn effeithio ar gymorth ar gyfer y rhai sy'n dioddef o anhwylder deubegynnol. Mewn ardaloedd gwledig, mae yna rhy ychydig o bobl i gynnal gwasanaethau, ac mae ardaloedd trefol yn boblog, ac felly'n aml mae yna brinder cefnogaeth ddigonol. Mae trafnidiaeth yn ffactor allweddol arall sy'n cyfyngu ar fynediad neu drafnidiaeth i'r gwasanaethau yna â phoblogaethau mawr. Bydd sicrhau eich bod chi'n trin pob ardal yn wahanol yn caniatáu i chi sicrhau eich bod chi'n cyrraedd y bobl gywir.

Jo – Cymru Gynnes – Mae hi'n bwysig deall y gwahanol sefydliadau sydd ynghlwm wrth hyn a gweithio gyda'r rhai sy'n gyfarwydd ag anghenion y gymuned ac sy'n gallu cynnig cymorth. Wrth ymestyn eich ymdrechion, ystyriwch pwy sy'n gallu cydweithio â chi, a sut y gall gwaith ar y cyd wella'r cymorth drwyddi draw. Mae asesu anghenion penodol pob ardal yn fanteisiol. Gall clustnodi unigolion y mae pobl yn ymddiried ynddynt o fewn y gymuned helpu i fwydo a llywio ymatebion i ofynion lleol. Gall gweithio mewn partneriaeth â grwpiau sy'n bodoli eisoes helpu i ddarparu cymorth mwy cynhwysfawr.

Chaz – Cyngor Cymru i Bobl Fyddar – Mae ardaloedd trefol yn cynnig rhwydweithiau cymorth ar gyfer pobl Fyddar, ond yn y gorllewin, mae cynnydd yn fwy araf. Mae sefydlu clybiau i bobl fyddar yn helpu i fodloni anghenion lleol, yn arbennig am fod yna ddiffyg adnoddau o'r fath mewn ardaloedd gwledig yn aml. Mae lledu'r gair ar lafar gwlad yn gallu cryfhau'r cysylltiadau yma. Mae sialensiau o ran trafnidiaeth yn gallu ei gwneud hi'n anos byth i unigolion byddar mewn lleoliadau anghysbell gyrchu'r cymorth sydd ei angen arnynt.

**Cwestiwn 2 – A oes gennym ni'r systemau cywir ar waith i gynorthwyo dull cydweithredol o weithio?**

Helen – Bipolar – Yn y pen draw, cyllid yw'r broblem allweddol. Yn hytrach nac edrych ar hyn fel gwrthdaro, byddai strategaeth gydweithredol yn fwy effeithiol. Trwy gydweithio, gallwn ddyrannu adnoddau mewn ffordd briodol, a sicrhau bod cyllid yn cael ei gyfeirio ble a phryd y mae'r angen mwyaf amdano. Mae hi'n

hanfodol hefyd nad yw'r wladwriaeth yn defnyddio hyn fel esgus i leihau gwariant, ond yn hytrach yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y person, sydd wir yn cefnogi unigolion.

Jo – Cymru Gynnes – Dylai sefydliadau mawr gydweithio â phartneriaid llai er mwyn gyrru datblygiadau yn eu blaen. Mae angen cyllid sy'n hyrwyddo gweithio gyda'r llawer yn hytrach nag ambell un, gan hwyluso rhannu adnoddau a chymorth i gyflawni newid.

Steven – OVO – Mae pobl yn gofyn i ni roi llaw yn ein poced i ddarparu'r cymorth yna ar gyfer ein rhaglenni ein hunain, ond mater o gymryd y baich yna er mwyn caniatáu i bobl eraill dyfu a chynnig y cymorth y gallwch chi a chydweithio yw hi.

Kit Wilson – Dŵr Cymru – Fe fabwysiadon ni ddull o weithredu ar sail Tîm Cymru, gan gydnabod bod angen cydweithio â byd diwydiant a byd amaeth i sicrhau newid amgylcheddol ystyrlon. Wrth i ni fuddsoddi biliynau o bunnoedd, mae hi'n hanfodol bod pawb yn cyfrannu, am na all yr un sefydliad gyflawni'r holl nodau hyn ar ei ben ei hun.

## Adborth ar y strategaeth - Trosolwg o'r sesiynau holi ac ateb

**Cwestiwn 1**

Sut gall sefydliadau reoli risgiau cytundebau rhannu data o dan y GDPR, wrth sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu er mwyn helpu unigolion?

- Ymateb: Cydnabu'r cyfranogwyr cymhlethrwydd a risgiau rhannu data, gan bwysleisio taw'r prif bwyslais yw helpu, nid niweidio, unigolion. Er taw nod y GDPR yw diogelu data, pwysleisiodd y dialog bwysigrwydd cynorthwyo pobl a chanolbwyntio ar ddeilliannau cadarnhaol.

**Cwestiwn 2**

Sut gallwn ni ei gwneud hi'n rhwydd, i gwsmeriaid ddod o hyd i gynnyrch neu wasanaethau hygyrch sy'n diwallu eu hanghenion? Er enghraifft, ymhle mae nodwedd hygyrchedd newid iaith y wefan?

- Ymateb: Trafododd y grŵp sialensiau gweladwyedd o ran nodweddion hygyrch ar y wefan, fel newid iaith. Rhoddwyd canmoliaeth i offer fel ReciteMe, ond nodwyd nad ydynt yn gwasanaethu pawb. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd iaith, delweddaeth, a'r angen am sicrhau bod y symbolau yn cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n wirioneddol ystyrlon i ddefnyddwyr.

**Cwestiwn 3**

Pa rôl y mae cyllid yn ei chwarae wrth wella gwasanaethau i gleientiaid, a pha mor hanfodol yw hyn i gymorth ariannol parhaus gan bartneriaid?

- Ymateb: Nodwyd bod cyllid yn hanfodol i wneud newidiadau sylweddol a chynnal gwelliannau. Disgrifiwyd cymorth parhaus gan bartneriaid fel peth hanfodol, sy'n caniatáu i sefydliadau addasu a gwasanaethu anghenion cleientiaid - rhywbeth sy'n dod yn ymestynnol heb gyllid cyson.

**Cwestiwn 4**

Sut gall elusennau gadw i fyny ag anghenion newidiol cwsmeriaid, o ystyried y cyfyngiadau ar gyllid, ac a oes yna gyfleoedd i arbrofi â dulliau newydd o weithio a rhannu arferion gorau?

- Ymateb: Nododd y sgwrs bod y ffordd o fynd i'r afael â bregusrwydd mewn gwasanaethau wedi esblygu – o fod yn air mwys i fod yn nod creiddiol sy'n cael ei gyflawni gan dimau penodol. Mae arolygon rheolaidd o gwsmeriaid yn llywio'r newidiadau, ond mae adnoddau cyfyngedig yn dod ag anawsterau. Roedd yna frwdfrydedd dros arbrofi â syniadau newydd, cydweithio a rhannu

dirnadaeth ar draws sefydliadau er mwyn datblygu hygyrchedd. Trafodwyd y posibilrwydd o ddod nôl ymhen blwyddyn a siarad am sut rydyn ni i gyd wedi gweithio gyda'n gilydd.

**Cwestiwn 5**

Sut gall gwasanaethau gynorthwyo grwpiau fel y gymuned fyddar yn well – er enghraifft trwy drosi gwybodaeth sylfaenol ar y wefan yn iaith arwyddion?

- Ymateb: Croesawyd yr awgrym i ddarparu cyfieithiadau iaith arwyddion ar gyfer cynnwys sylfaenol y wefan, gyda chynigion am gymorth sgriptio a throsi, ac argymhelliad na ddylai fod yna gyfyngiadau o ran amser ar adnoddau o'r fath. Trafodwyd defnyddio codau QR, defnyddio gwasanaethau fideo BSL a chodi ymwybyddiaeth ar draws pob busnes.

**Cwestiwn 6**

Sut mae estyn allan a chynorthwyo pobl sy'n fregus ond nad ydynt yn gofyn am gymorth, fel pobl sy'n goroesi strôc, neu'r rhai sy'n anghyfarwydd â budd-daliadau?

- Ymateb: Rhannwyd esiamplau o'r byd go iawn. Hwyrach na fydd llawer yn credu bod hawl ganddynt gael cymorth, a'u bod yn colli allan o'r herwydd. Trafododd y grŵp bwysigrwydd gwaith rhagweithiol yn y gymuned er mwyn sicrhau nad yw unigolion o'r fath yn cael eu hepgor.

## Guided Expo

**Jody Perkins/Tracey Price, Tîm Cymunedol DCWW**

**Annie Lamb, Arweinydd Tîm, Gwasanaethau Dŵr DCWW**

**Jo Seymour, Cymru Gynnes**

**Steven Donovan, Ovo Energy**

**Helen Hancock, Bipolar UK**

**Cath Booth, Cyngor Cymru i Bobl Fyddar**

## Appendices

### Atodiad A: Agenda

09:30 Cyrraedd a lluniaeth
10:00 Croeso a chadw tŷ, Rebecca Price, Dŵr Cymru Welsh Water
10:05 Neges Fideo gan Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet ar faterion Cyfiawnder Cymdeithasol
10:10 Kit Wilson Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cwsmeriaid a Datblygwyr, Dŵr Cymru Welsh Water
10:40 Steven Donovan, Ovo Energy
11:10 Helen Hancock, Bipolar UK
11:40 Egwyl
11:55 Chaz Hampton, Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
12:25 Joanna Seymour, Cymru Gynnes
12:55 Cinio a Stondinau Arddangos
13:55 Sesiwn Adborth a Holi ac Ateb
14:35 Sylwadau i gloi, Kit Wilson, Dŵr Cymru Welsh Water

14:45 Cau

## Atodiad B: Bywgraffiadau'r Siaradwyr

**Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet ar faterion Cyfiawnder Cymdeithasol**

Treuliodd Jane Hutt ran o'i phlentyndod yn Uganda a Kenya, a chafodd ei haddysg ym Mhrifysgol Caint, Ysgol Economeg Llundain a Phrifysgol Bryste. Mae Jane wedi bod yn byw ac yn gweithio yng Nghymru ers 1972.

Bu Jane yn aelod etholedig o hen Gyngor Sir De Morgannwg am 12 mlynedd, a chafodd ei hethol i'r Cynulliad cyntaf ym 1999. Rhwng 1999 a 2005, bu Jane yn Weinidog Llywodraeth Cymru ar faterion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rhwng 2005 a 2007, bu'n Weinidog Busnes y Cynulliad ac yn Brif Chwip. Yng Nghabinet cyntaf y Trydydd Gynulliad, cafodd ei phenodi'n Weinidog Cyllideb a Busnes y Cynulliad.

Yng Nghabinet y glymblaid, ar 19 Gorffennaf 2007, daeth Jane yn Weinidog Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Yn Rhagfyr 2009, cafodd ei phenodi'n Weinidog Busnes a'r Gyllideb, wedyn yn Weinidog Cyllid tan 2016 pan gafodd ei phenodi'n Arweinydd y Tŷ ac yn Brif Chwip ar ddechrau'r Pumed Gynulliad.

Ar 13 Rhagfyr 2018, penodwyd Jane yn Ddirprwy Brif Weinidog ac yn Brif Chwip. Cafodd ei phenodi'n Weinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar 13 Mai 2021. Yn Anrhydeddau Pen-blwydd 2023, penodwyd Jane yn Gadlywydd Urdd yr Ymddiriedolaeth Brydeinig (CBE). Ar 21 Mawrth 2024, cafodd Jane ei phenodi'n Brif Chwip a Threfydd. Cafodd ei phenodi'n Ysgrifennydd y Cabinet ar faterion Cyfiawnder Cymdeithasol, Trefnydd a Phrif Chwip ar 11 Medi 2024.

Mae Jane yn gymrawd anrhydeddus i Brifysgol Metropolitan Caerdydd a Choleg Caerdydd a'r Fro. Mae hi'n dysgu Cymraeg.

**Steven Donovan, Ovo Energy**

Steve yw TCF ac Arweinydd Bregusrwydd Defnyddwyr OVO Energy. Mae e'n arbenigo ym mhrofiad y cwsmer a strategaeth, gyda ffocws arbennig ar ddylunio cynhwysol a chynorthwyo cwsmeriaid sydd o dan amgylchiadau bregus. Mae Steve yn byw gyda'i deulu yn ardal Casnewydd ac mae'n mwynhau pob agwedd ar ymgysylltu â chymunedau yng Nghymru.

**Helen Hancock, Bipolar UK**

Ymunodd Helen â Bipolar UK fel swyddog cymorth i gymheiriaid yn 2022 ar ôl treulio sawl blwyddyn yn gweithio fel ysgrifennydd cwmni a chyfreithiwr. Mae hi wedi gweithio yn y GIG ym Mryste a De Cymru fel rheolwr nyrsio cymunedol a gwasanaethau iechyd meddwl hefyd. Mae gan Helen brofiad o bipolar trwy ffrindiau a pherthnasau.

**Chaz Hampton, Cyngor Cymru i Bobl Fyddar**

Mae Chaz yn gweithio gyda Chyngor Cymru i Bobl Fyddar ac mae'n gweithio'n ddiflino fel cennad i'r gymuned fyddar. Mae e'n angerddol ynghylch darparu mynediad i wasanaethau ar gyfer y gymuned, ac yn siarad yn agored am y sialensiau y mae'r gymuned yn eu hwynebu, fel iechyd y cyhoedd, sector y cyfleustodau, addysg a'r system budd-daliadau am gymorth.

**Jo Seymour, Cymru Gynnes – Cyfarwyddwr Partneriaethau a Datblygu**

Mae rôl Joanna'n cyfuno rheoli prosiectau, cyflawni gweithredol, rheoli staff, clustnodi a meithrin partneriaethau newydd, ac arwain ar ddatblygu cyfleoedd prosiect newydd. Ymunodd Joanna â Chymru

Gynnes fel Rheolwr Prosiect ym mis Tachwedd 2017, ac mae hi'n Ymarferydd Iechyd Amgylcheddol cymwys ac yn ymarferydd iechyd y cyhoedd cofrestredig.

## Atodiad C: Rhestr o'r bobl fu'n bresennol

| Eich enw | Eich sefydliad |
|---|---|
| Abigail Nolasco-Wilson | Diverse Cymru |
| Angharad Burden | Marie Curie |
| Anthea Cornwall-Nicholas | Cymru Gynnes |
| Ben Cullerton | Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain |
| Beth Lloyd | Cyngor Ar Bopeth RhCT |
| Cath Booth | Cyngor Cymru i Bobl Fyddar |
| Chaz Hampton | Cyngor Cymru i Bobl Fyddar |
| Chrissie Sumner | Atal Siarcod Benthyg Arian Cymru |
| Clare Dickinson | Cartrefi Taf |
| Davinia Bailey | Byddin yr Iachawdwriaeth |
| Donna Lewis | Cyngor Ar Bopeth RhCT |
| Gareth Thomas | National Energy Action |
| Helen Clarke | Gofal Arennau'r DU |
| Helen Hancock | Bipolar UK |
| Jack Bentley | Gofal a Thrwsio Cymru |
| Jacqui Osborne | OVO |
| James Eul | Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd |
| Jayne Lewis | Cyngor Sir Casnewydd |
| Joanna Seymour | Cymru Gynnes |
| Jon Antoniazzi | Marie Curie |
| Jonathan Cosson | Cymru Gynnes |
| Katherine Pritchard | Cyngor Sir Casnewydd |
| Katie Wood | Hafren Dyfrdwy |
| Kayleigh Nor-Val | Cyngor Ar Bopeth Caerdydd |
| Lawrence Davies | Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau |
| Louise Moir | Hafren Dyfrdwy |
| Lucy Price | Scope |
| Lydia Parry | Bron Afon |
| Maureen Casagrande | Grŵp Strôc Castell-nedd Port Talbot |
| Mike Freeman | Cyngor 3ydd Sector Caerdydd |
| Mildred Foster | Women Connect First |
| Natalie Clark | Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro |
| Nigel Oanea-Cram | Trussell |
| Olivia Exon | Scope |
| Owen Derbyshire | ICG |
| Paul Labourn | Byddin yr Iachawdwriaeth |
| Paula Skyrme | Hedyn |
| Rachel Williams | Cyngor Cymru i Bobl Fyddar |
| Rob Sandalls | StepChange |

| | |
|---|---|
| Robyn Harris | Cyngor Cymru i Bobl Fyddar |
| Ryan Evans | Atal Siarcod Benthyg Arian Cymru |
| Sharon Derrick | Cyngor Cymru i Bobl Fyddar |
| Siân McDonald | Hedyn |
| Steve Donovan | OVO |
| Tracey Stone | Welfare Together Ltd |
| Vicki Gurner | Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| Jacob Danouai | Undeb Credyd Caerdydd a’r Fro |
| | |
| | |
| Kit Wilson | Dŵr Cymru |
| Rebecca Price | Dŵr Cymru |
| Sarah Sebburn | Dŵr Cymru |
| Ross Forbes | Dŵr Cymru |
| Jon Garbutt | Dŵr Cymru |
| Elijah Javed-Mackenzie | Dŵr Cymru |
| Gemma Patel | Dŵr Cymru |
| Anna Humphrey | Dŵr Cymru |
| Siôn Griffiths | Dŵr Cymru |
| Tracey Price | Dŵr Cymru |
| Jody Perkins | Dŵr Cymru |
| Emily Burrows | Dŵr Cymru |

## Atodiad D: Lluniau o'r diwrnod















Speaker
Kit Wilson




Making services more accessible for people with bipolar


My background & Life as a Deaf person



